



Ein cyf/Our ref KS/05927/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

16 Ebrill 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch P-05-874 Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru.

Mae llawer iawn o egni ac ewyllys da ledled y wlad i wrthwynebu faint o blastig a ddefnyddiwn ac i leihau'r defnydd diangen ohono. Dylem geisio atal neu leihau cynhyrchion a pheccynnau plastig diangen neu rai na ellir eu hailgylchu.

Drwy Gynllun Datblygu Cynaliadwy Trafnidiaeth Cymru, bydd yn helpu i sicrhau a chefnogi dyfodol cynaliadwy i Gymru sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn rhoi hwb i economi a chymunedau Cymru, gan leihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd a gwella cysylltiadau yng Nghymru a'i ffiniau ar yr un pryd.

Mae Cynllun Rheoli Gwastraff Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu egwyddorion Hierarchaeth Wastraff Ewrop drwy waredu, lleihau, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff. Enghraifft o hyn yw ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i nod Llywodraeth Cymru i leihau'r defnydd o boteli plastig ar gyfer ddŵr a diodydd eraill drwy, ymhlith camau eraill, hyrwyddo'r defnydd o gynhwysyddion yfed y gellir eu hailddefnyddio gan deithwyr a cheisio darparu mynediad i ddŵr yfed am ddim er mwyn ail-lenwi poteli.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**  
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**  
**Minister for Economy and Transport**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.